# Tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru: tystiolaeth profiad bywyd

## Cyflwyniad

Mae barn a lleisiau pobl sydd â phrofiad bywyd o dlodi ac allgáu cymdeithasol yn hollbwysig wrth ddatblygu ymyriadau a strategaethau gwrthdlodi. Gall pobl sydd â phrofiad personol o dlodi ac allgáu cymdeithasol a'r rhai sydd â phrofiad proffesiynol o weithio gyda phobl sy'n profi'r problemau hyn gynnig cipolygon defnyddiol o brofiad bywyd yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau a gweithredu polisïau.

Mae cynnwys tystiolaeth o brofiad bywyd wrth ddatblygu polisi yn bwysig er mwyn sicrhau bod cynlluniau polisi wedi'u seilio ar ddeall sut mae, a sut gall, pobl y mae'r polisïau hyn yn ceisio'u cefnogi ystyried ac ymateb iddynt, a sut brofiad gaiff y bobl o'r cynlluniau polisi.

Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi canfyddiadau adolygiad o dystiolaeth ansoddol ynghylch profiad bywyd o dlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru. Mae tystiolaeth ansoddol yn galluogi pobl i ddisgrifio eu profiad mewn modd manwl a mwy agored a hyblyg, yn eu geiriau eu hunain, o gymharu â dulliau meintiol sy'n aml yn gofyn am geisio deall profiad pobl yn ôl categorïau penodol.

## Cwestiynau ymchwil

Aeth yr adolygiad i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- Beth yw profiadau bywyd pobl sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol a/neu mewn tlodi yng Nghymru?
- Beth yw'r goblygiadau allweddol i bolisi ac ymarfer yng Nghymru?
- Beth yw'r prif fylchau yn y sylfaen dystiolaeth profiad bywyd yng Nghymru?

## Canfyddiadau

Er bod y dystiolaeth a adolygwyd o brofiad bywyd yn brin, mae'n dangos yn glir nad yw profiadau o dlodi ac allgáu cymdeithasol wedi'u cyfyngu i feysydd ar wahân ym mywyd pobl. Roedd pobl a ddywedodd eu bod mewn un math o dlodi (e.e. tlodi tanwydd neu ansicrwydd bwyd), hefyd yn debygol o brofi amddifadedd ac allgáu mewn rhannau eraill o'u bywyd, gydag un math o amddifadedd yn aml yn cyfrannu at ac yn atgyfnerthu eraill.

Yn ogystal, mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn dangos bod llawer o bobl â phrofiad bywyd o dlodi ac allgáu cymdeithasol wedi cael y rhain gydol eu bywyd, gydag amddifadedd mewn ffyrdd gwahanol ar adegau gwahanol.

Mae tystiolaeth am brofiad bywyd yn aml yn datgelu dimensiynau emosiynol a seicolegol tlodi ac allgáu cymdeithasol, a all effeithio ar sut mae pobl yn rhyngweithio â chymorth a gwasanaethau – mae cywilydd, stigma a balchder yn aml yn rhwystr rhag troi at wasanaethau.

Mae'r rhai sydd â phrofiad bywyd yn aml yn tynnu sylw at effaith gyrwyr strwythurol tlodi ac allgáu cymdeithasol, fel incwm isel, gwaith ansicr o ansawdd gwael, a newid mewn costau byw neu nawdd cymdeithasol annigonol sydd, yn eu tro, yn arwain at fathau ariannol ac anariannol ehangach o allgáu cymdeithasol.

Ar adegau, mae safbwyntiau personol a phroffesiynol yn amrywio ac yn gwrthddweud ei gilydd, er enghraifft o ran deall ymddygiad a chymhellion pobl mewn tlodi a/neu allgáu cymdeithasol. Gall hyn fod â goblygiadau i'r ffordd y gall gwasanaethau a rhaglenni weithio gyda phobl mewn tlodi neu wedi'u hallgáu'n gymdeithasol.

## Bylchau tystiolaeth

Mae bylchau yn y sylfaen dystiolaeth wedi arwain at atebion mwy cadarn i'r cwestiynau ymchwil ynghylch rhai dimensiynau tlodi ac allgáu cymdeithasol o gymharu ag eraill. Mae anghysondebau llunio yn broblem allweddol ar gyfer nodi tystiolaeth berthnasol oherwydd, yn aml, nid yw llawer o astudiaethau sy'n archwilio profiadau bywyd o dlodi a/neu allgáu cymdeithasol yn cael eu llunio yn y termau hyn, a gallant gael eu hepgor yn anfwriadol o chwiliadau, o ganlyniad.

At hynny, nid yw llawer o sefydliadau sy'n ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd o dlodi ac allgáu cymdeithasol yn cynhyrchu tystiolaeth ffurfiol, sy'n cyflwyno ffactor cyfyngol pellach.

O'r herwydd, mae diffyg tystiolaeth o brofiad bywyd yn gysylltiedig â phrofiadau pobl o dlodi ac allgáu cymdeithasol o hyd yn fwlch allweddol yn ein dealltwriaeth o dlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

## Casgliad

Mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn cefnogi strategaeth sy'n mabwysiadu dealltwriaeth gyfannol ac aml-ddimensiwn o dlodi, megis 'allgáu cymdeithasol'. Dylai strategaeth o'r fath ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r ffactorau strwythurol sylfaenol sy'n gyrru tlodi, gan ategu hyn ag ymyriadau wedi'u targedu at elfennau penodol o brofiadau pobl o dlodi, megis tlodi tanwydd neu ansicrwydd bwyd.

Yn gyffredinol, mae'r adolygiad yn dangos bwlch sylweddol yn y sylfaen dystiolaeth profiad bywyd ac mae'n amlwg bod angen i'r bobl sydd â phrofiad bywyd gymryd mwy o ran mewn astudiaethau o dlodi ac allgáu cymdeithasol a datblygiad polisi cysylltiedig yng Nghymru.

## Rhagor o wybodaeth

I gael yr adroddiad llawn gweler Carter, I. (2022). ***Tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru: Adolygiad o dystiolaeth profiad bywyd.*** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan, sy'n cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, yn rhan o Brifysgol Caerdydd ac yn aelod o What Works Network y Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Dan Bristow**

+44 (0)29 2087 5345

dan.bristow@wcpp.org.uk